Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 26 MEDI 2022 am 2.00 y. p. | | MONDAY, 26 SEPTEMBER, 2022 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones ***(Is-Gadeirydd)***, Jackie Lewis,
Llio A. Owen, Alwen Watkin, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Dafydd Roberts

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)
R. Llewelyn Jones ***(Cadeirydd)***

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Rebekah Davie-Tettmar (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

**R H A G L E N**

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022.

**3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH1 2022/23** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

**4 MONITRO CYNNYDD:ADRODDIAD CYNNYDD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** (Tudalennau 21 - 28)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**5 DIWEDDARIAD AR GYNNYDD Y PANEL SGRIWTINI CYLLID** (Tudalennau 29 - 34)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**6 GRWP LLYWIO GWASTRAFF GYDA WRAP CYMRU** (Tudalennau 35 - 40)

Enwebu aelod o'r Pwyllgor i wasanaethu ar y Grwp Llywio Gwastraff gyda WRAP Cymru.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 41 - 48)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar yr 20fed o Fehefin, 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Neville Evans, Douglas Fowlie, Aled M. Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Alwen Watkin, Arfon Wyn<br><br>**Aelodau Portffolio**<br><br>Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Datblygiad Economaidd, Hamddern a Twristiaeth), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), Gary Pritchard (Aelod Portffolio Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol, a Gwasanaethau Ieuenctid). Alun Roberts (Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Dirprwy Brif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ)<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM)<br>Rheolwr Busnes (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) (GP)<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg), Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Bethan E. Griffith (Rheolwr Cymorth Busnes – Gwasanaethau Democrataidd) |

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Weinyddiaeth newydd a chyflwynwyd y Swyddogion a'r Aelodau. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Aled M. Jones, ei ragflaenydd yn y rôl am ei waith a'r Pwyllgor dros y pum mlynedd diwethaf.



DRAFT

## 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol -

- 28 Chwefror, 2022
- 7 Mawrth, 2022
- 31 Mai, 2022

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Chwefror a 7 Mawrth, 2022.**
- **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Mai, 2022.**

## 3 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH4 2021/22

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid gan gynnwys Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 blwyddyn ariannol 2021/22 er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt yn gynharach yn y flwyddyn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, a oedd yn Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol yn ystod y cyfnod adrodd hwn, y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 4 sef y pedwerydd adroddiad cerdyn sgorio a'r un olaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a'r cyntaf o'r Weinyddiaeth newydd. Roedd yn falch o allu adrodd bod 90% o Ddangosyddion Perfformiad wedi'u cyrraedd neu'n agos at y targed, a thrwy edrych yn ôl ar y Cerdyn Sgorio dros y pum mlynedd diwethaf a sut mae'n adlewyrchu perfformiad y Cyngor, gallai gadarnhau bod perfformiad wedi gwella'n raddol yn ystod y cyfnod hwn er gwaethaf yr heriau yn sgil mesurau cyni a delio â'r pandemig. Mae enghreifftiau penodol o berfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u darparu yn yr adroddiad sy'n ymwneud â Gwasanaethau Oedolion, atal digartrefedd a nifer yr eiddo gwag sydd yn ôl mewn defnydd.

Wrth gydnabod tôn cadarnhaol yr adroddiad yn gyffredinol a pherfformiad cadarn y Cyngor a adlewyrchwyd ganddo, nododd y Pwyllgor hefyd y meysydd perfformiad canlynol oedd islaw'r targed a heriodd gan gydnabod y bydd y meysydd hyn yn debygol o ddylanwadu ar y dull gweithredu yn y flwyddyn i ddod –

- Dangosydd 32 – Canran o wastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn Goch gyda pherfformiad o 62.39% yn erbyn targed lleol o 70% a tharged statudol cenedlaethol o 64% am y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn hefyd ychydig yn is na'r 62.96% a welwyd ar ddiwedd 2020/21.

Cadarnhaodd Rheolwr Busnes y Gwasanaethau Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod y perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn wedi disgyn yn is na tharged statudol 2021/22 o 64% yn rhannol oherwydd cyflwyno gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd y telir amdano sydd wedi arwain at ostyngiad o 2,000 tunnell yn y gwastraff gwyrdd a gesglir a hefyd cynnydd mewn gwastraff bin du dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Rhagwelodd Swyddogion bryderon ynghylch cwrdd â thargedau interim a thymor hwy (70% erbyn 2024/25) dros 12 mis yn ôl ac am y rheswm hwn fe wahoddwyd WRAP Cymru (*The Waste and Resources Action Programme*) i gynorthwyo'r Cyngor gyda dadansoddi perfformiad gweithredol a gwneud argymhellion i gynorthwyo gyda chwrdd y targedau gofynnol. Mae WRAP Cymru yn ymweld â'r Ynys i gynnal asesiadau ymarferol yn ystod Ch1 a Ch2 2022/23 a disgwylir i ganlyniadau

ei ddadansoddiad fod ar gael yn ystod Ch3 2022/23. Mewn ymateb i gwestiynau pellach am gosbau a/neu sancsiynau am beidio â chyflawni targedau ailgylchu statudol a'r rhan a chwaraewyd gan gynnydd mewn twristiaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf mewn cyfraddau ailgylchu/cyfraddau cynyddol o wastraff bin du, dywedodd y Swyddog, er ei fod yn bosibl i Lywodraeth Cymru osod cosbau am golli cyfraddau ailgylchu statudol mae'n ystyried y cynlluniau sydd gan awdurdod lleol i wella perfformiad a chyrraedd targedau ailgylchu yn y dyfodol ac yn hyn o beth cydweithrediad y Cyngor â WRAP Cymru i gynyddu cyfraddau ailgylchu ar yr Ynys yn ei gosod mewn sefyllfa gadarn. Yn ogystal, bydd rhan o waith WRAP Cymru yn cynnwys dadansoddi effaith twristiaeth ar gyfraddau ailgylchu.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r flaenoriaeth gyntaf yw cwblhau'r gwaith sy'n cael ei wneud gan WRAP Cymru sy'n ymwneud â dadansoddi'r gwastraff sy'n cael ei gasglu a faint sy'n cael ei ailgylchu a fydd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i'r Cyngor. Efallai y bydd angen ymchwil pellach i ganfod sut mae'r farchnad breifat wedi perfformio gan gynnwys sut mae'r sector masnachol wedi addasu i lefelau twristiaeth uwch o ystyried bod y boblogaeth wedi cynyddu i oddeutu 300,000 o ymwelwyr yn ystod y ddau haf blaenorol o gymharu â'r boblogaeth breswyl o tua 70,000. Er bod hyn yn debygol o fod wedi cael effaith ar berfformiad ailgylchu, mae angen data manwl i ddangos i ba raddau y mae unrhyw gynnydd mewn twristiaeth wedi cael effaith negyddol ar reoli gwastraff a lefelau ailgylchu. Unwaith y bydd gwaith WRAP Cymru wedi cyrraedd cam digon datblygedig, gellir dod â'i gasgliadau i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w harchwilio a'u craffu'n fanwl.

Cytunodd y Pwyllgor fod angen craffu'n barhaus ar berfformiad y Cyngor o ran ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff gan ei fod hefyd yn gysylltiedig â mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo. Croesawodd y Pwyllgor yr awgrym y dylid dod â chanlyniad gwaith WRAP Cymru i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i'w archwilio.

- Dangosydd 36 – Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd yn goch gyda pherfformiad o 50% yn erbyn targed o 65%.

Wrth gadarnhau y bu tri phenderfyniad newydd ar apeliadau yn ystod chwarter olaf y flwyddyn pan wrthodwyd dwy o'r apeliadau gan ddod â'r ganran gyffredinol ar gyfer y flwyddyn o 46% i 59%, dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod y dangosydd hwn yn delio â ffigyrau bach iawn bod y tanberfformiad yn ganlyniad i 5 allan o 10 apêl cynllunio yn cael eu cymeradwyo – 8 o'r apeliadau hynny yn geisiadau a benderfynwyd gan swyddogion a 2 yn geisiadau a benderfynwyd gan y Pwyllgor. Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio mai nifer fach iawn yw'r 10 apêl sy'n codi o'u hystyried yng nghyd-destun y 1,000 a mwy o geisiadau ar gyfartaledd y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn delio â nhw yn ystod y flwyddyn. Mae yna hefyd elfen o ddehongli / goddrychedd yn ymwneud â cheisiadau cynllunio ac mae dadansoddiad o benderfyniadau apêl wedi dangos eu bod yn amrywio o ran eu natur heb unrhyw batrwm amlwg wedi'i nodi a fyddai'n gofyn am ddehongliad gwahanol o bolisïau cynllunio lleol. Er bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau cynllunio ac felly allan o reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol, mae'r Awdurdod yn parhau i ymdrechu i wella perfformiad ac i'r perwyl hwnnw mae'r tîm Cynllunio wedi'i gryfhau a phenodiadau newydd wedi'u gwneud a rhaglen o gyflwyno hyfforddiant ar gyfer Swyddogion ac Aelodau Etholedig. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol hefyd yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar gyfer unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ac fel y gellir dysgu gwersi er mwyn parhau i wella effeithiolrwydd y broses o wneud penderfyniadau. Dywedodd y Swyddog ymhellach, er nad oedd data cymharol ar gael yn ystod cyfnod pandemig Covid, ei fod yn ymwybodol bod y sefyllfa ranbarthol yn debyg.

Derbyniodd y Pwyllgor y rhesymau pam fod perfformiad cynllunio mewn perthynas ag apeliadau wedi methu'r targed ac fe'i bodlonwyd gan esboniad y Swyddog.

DRAFT

- Dangosydd 04b – Cyfanswm canran yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn goch gyda pherfformiad o 66% yn erbyn targed o 80%.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol sicrwydd, er na ddarparwyd ymateb ysgrifenedig i gwynion ym mhob achos, y gallai gadarnhau bod 39 o'r 41 o gwynion a dderbyniwyd wedi'u trafod gyda'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith, a 7 o'r 13 o ymatebion ysgrifenedig hwyr wedi'u cytuno gyda'r achwynydd cyn iddynt gael eu nodi'n hwyr fel y nodwyd yn y protocol cwynion. Mae natur gymhleth y cwynion a dderbyniwyd a chymhlethdod y materion a godwyd yn aml yn gofyn am fewnbwn aml-asiantaeth sy'n golygu y gall achosion gymryd mwy na 15 diwrnod i ymchwilio iddynt a'u datrys. Yn ogystal, mae'r cyfrifoldeb am ymateb i gwynion bellach yn cael ei rannu rhwng rheolwyr gwasanaeth gyda'r nod o gyflymu ymateb i gwynion.

Nododd a derbyniodd y Pwyllgor yr esboniad.

- Dangosydd 23 - Hyd amser cyfartalog yr holl blant a oedd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a ail-gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn yn Ambr gyda pherfformiad o 318 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod gweithdrefnau clir ar gyfer cofrestru a dadgofrestru plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Cadarnhaodd ar adeg drafftio'r adroddiad fod 14 o blant (allan o 48 ar y gofrestr) wedi bod ar y gofrestr ers dros 7 mis; mae'r achosion hyn yn gymhleth ac mae llawer o'r plant hyn yn ddarostyngedig i'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus sy'n nodi'r broses i'w dilyn pan fydd achosion gofal plentyn yn cael eu cychwyn. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol nad yw'r ffaith bod 14 o blant wedi bod ar y gofrestr am fwy na 7 mis o reidrwydd yn adlewyrchiad o berfformiad gwael gan fod tynnu plant oddi ar y gofrestr yn dasg amlddisgyblaethol sy'n gofyn am gwrdd â nifer o feini prawf llym. Byddai dadgofrestru plant yn gynamserol neu y tu allan i'r broses hon yn golygu risg i'r Cyngor. Cyflwynwyd y Dangosydd Perfformiad yn wreiddiol pan oedd nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn uwch ac roedd elfen o lithriad wedi'i nodi mewn rhai achosion ac felly mae'n ddangosydd hanesyddol. Mae'r sefyllfa wedi gwella ers hynny ac mae'r Gwasanaeth wedi symud ymlaen. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch adnoddau fel ffactor, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod argaeledd adnoddau yn un elfen ond bod cymhlethdod anghenion y plant hyn a'r ffaith eu bod wedi'u gosod ar y gofrestr am nifer o resymau yn fwy arwyddocaol yn yr achosion dan sylw.

Wrth dderbyn yr eglurhad, cydnabu'r Pwyllgor fod gwerthuso perfformiad ar gyfer y Dangosydd hwn yn fater cymhleth ac nad yw nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r amser y maent wedi bod ar y gofrestr yn dangos y darlun cyfan o ran natur a difrifoldeb eu hanghenion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u tynnu oddi ar y gofrestr yn rhy fuan.

Wrth holi ymhellach, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd y gellir cynnal y perfformiad cadarnhaol mewn perthynas â DP 26 – canran yr aelwydydd a gafodd eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref (80.95% yn erbyn targed o 70%) – yn y dyfodol pe bai cyllid Llywodraeth Cymru yn lleihau neu'n tynnu cyllid yn ôl.

Cadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Tai fod nifer y bobl mewn llety brys yn llawer uwch nag y bu'n hanesyddol a bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol i gefnogi'r sefyllfa honno. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal y lefel bresennol o gyllid ar gyfer 2022/23 sydd wedi cyfrannu at berfformiad cadarn y Gwasanaeth mewn perthynas â'r Dangosydd hwn, nid oes sicrwydd y bydd yr un gefnogaeth ar gael yn y blynyddoedd dilynol. Mae'r Gwasanaeth yn gwneud ei orau o

fewn yr adnoddau presennol i sicrhau lefelau staffio yn y tymor hwy a bwriad y Gwasanaeth yw gwneud cais i ddefnyddio arian wrth gefn y gwasanaeth i gynnal lefelau staffio ar gyfer 2023/24. Gall y sefyllfa sy'n datblygu yn Wcráin a nifer cynyddol o ffoaduriaid o ganlyniad i'r gwrthdaro hefyd ychwanegu at y galw am lety brys.

**Ar ôl ystyried adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 4 2021/22 a'r eglurhad a'r sicrwydd a roddwyd ar lafar gan Swyddogion yn y cyfarfod ynghylch y pwyntiau a godwyd, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, i nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 ENWEBU AELODAU SGRIWTINI I WASANAETHU AR FYRDDAU A PHANELAU

Adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro a'r Rheolwr Sgriwtini yn gwahodd y Pwyllgor i enwebu cynrychiolwyr o blith ei aelodau i wasanaethu ar Banel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol/Panel Rhiantu Corfforaethol; Cyflwynwyd y Panel Craffu Cyllid a'r Panel Craffu Addysg i'w hystyried. Roedd yr adroddiad yn manylu ar gwmpas, swyddogaeth a chylch gwaith pob panel ac yn nodi eu trefniadau adrodd.

**Penderfynwyd enwebu'r aelodau canlynol i wasanaethau ar y Paneli fel y nodwyd uchod -**

- **Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol/Panel Rhiantu Corfforaethol (4 aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

  **Cynghorwyr Neville Evans, Jackie Lewis, Llio A. Owen ac Alwen Watkin**

- **Panel Sgriwtini Cyllid (3 aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

  **Cynghorwyr Geraint Bebb, Dyfed Wyn Jones, Dafydd Roberts**

- **Panel Sgriwtini Addysg (4 aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

  **Cynghorwyr Dyfed Wyn Jones, Keith Roberts, Alwen Watkin ac Arfon Wyn**

## 5 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn nodi Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar gyfer 2022/23 i'w ystyried.

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Medi, 2022 a chadarnhaodd yr eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod hwnnw. Mewn ymateb i gwestiynau am y broses ar gyfer amserlennu eitemau ar y rhaglen waith dywedodd fod hyn yn cael ei wneud yn unol â phroses gorfforaethol gyda'r nod o sicrhau aliniad strategol a chroesgyfeirio rhwng Blaen Raglenni Gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgorau Sgriwtini i alluogi'r Pwyllgorau Sgriwtini i ystyried eitemau sydd o bwysigrwydd strategol i'r Cyngor cyn iddynt gael eu penderfynu gan y Pwyllgor Gwaith. Mae cyfarfodydd misol y Fforwm Cadeiryddion/Is-Gadeiryddion Sgriwtini hefyd yn rhoi cyfle i drafod y materion hynny.

**Penderfynwyd –**

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Blaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

DRAFT

**Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 26 Medi 2022 |
| **Pwnc:** | ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2022/23) |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Herio Perfformiad |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | CYNG ROBERT LL JONES |
| **Aelod(au) Portfolio:** | CYNG ROBIN W WILLIAMS |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | CARYS EDWARDS |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | GETHIN MORGAN<br><br>01248 752111<br><br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

**1. Argymhelliad/ion**

1.1. Hwn yw'r cerdyn sgorio cyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.

1.2. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden;
- Nifer yr eiddo gwag sydd wedi dod yn ôl i ddefnydd;
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter;
- Y dangosyddion digartrefedd;
- Mae tri o'r pedwar dangosydd rheoli gwastraff yn uwch na'r targed; a
- Mae cyflwr lonydd dosbarth A, B ac C wedi gwella unwaith eto yn ystod y flwyddyn.

1.3. Serch hynny, gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar rai meysydd. Gellir crynhoi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol fel a ganlyn –

1.3.1. Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo gwelliant yn ystod Ch2 gan ganolbwyntio'n benodol ar y gwelliannau sydd angen eu gwneud mewn perthynas â'r dangosydd ar gyfer cwblhau asesiadau plant o fewn yr amserlen.

1.4. Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

**2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor

| 3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• hirdymor<br>• atal<br>• integreiddio<br>• cydweithio<br>• cynnwys<br>**[ffocws ar lesiant]** |

| 4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| 4.1. Ar ddiwedd Ch1, mae nifer sylweddol o ddangosyddion yn dangos perfformiad da yn erbyn targedau. Pa mor heriol fydd hi i gynnal lefelau perfformiad gyda'r heriau a'r ansicrwydd yn cynyddu?<br><br>4.2. Sut y bwriedir mynd i'r afael â'r meysydd lle mae angen gwella perfformiad ar hyn o bryd?<br><br>4.3. I ba raddau mae'r wybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Sgriwtini ar berfformiad cyffredinol gwasanaethau'r Cyngor? |

| 5. Cefndir / Cyd-destun | |
|---|---|
| 5.1 | Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn. |
| 5.2 | Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach eleni. |
| 5.3 | Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym, sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. |

5.4 Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

5.5 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 1 (Ch1) a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch1.

**8 – Atodiadau**

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 1

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2021/22 – Chwarter 4 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2022 ac a dderbyniwyd ganddo.)

**ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1 (2022/23)**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

1.2 Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach eleni.

1.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym, sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.

1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 1 (Ch1) a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

## 2. CYD-DESTUN

2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor a byddant yn cael eu datblygu a'u halinio â Chynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023-28 pan fydd yn cael ei fabwysiadu yn ddiweddarach eleni:

- Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
- Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwrachod ein hamgylchedd naturiol.

2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd y bydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).


2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen.

2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronnol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn. Felly, gadawyd y golofn tueddiadau'n wag yn fwriadol ar gyfer Ch1 a bydd y wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad cerdyn sgorio o Ch2 ymlaen.

## 3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

3.1 Mae'r mwyafrif (60%) o'r dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodi'r rhai o'r uchafbwyntiau isod.

3.2 Ar ddiwedd Ch1 mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 1.86 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 2.1 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn well na'r 2.24 diwrnod a gollwyd oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn yn ystod yr un cyfnod y llynedd ac mae'n cymharu'n dda â'r tair blynedd diwethaf. Mae'r canlyniadau hyn yn brawf o ymrwymiad staff, yn arbennig yn ystod cyfnod mor heriol.




3.3 Mae ein strategaeth ddigidol yn parhau i ddatblygu ac mae cyflwyno'r sgwrsfot 'Mona' ar y wefan yn enghraifft o hyn. Yn ddiweddar, dangoswyd y sgwrsfot i gwsmeriaid yn ystod Sioe Môn ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Yn ystod Ch1 roedd 4k o ddefnyddwyr wedi defnyddio'r sgwrsfot gyda 13.5k o ryngweithiadau. Mae datblygiadau eraill yn cynnwys system Rheoli Cysylltiadau Cwsmer (CRM) newydd fydd yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod 2022/23, gyda'r nod o wella profiad y cwsmer ac, yn wir, eu profiad wrth iddynt ryngweithio â ni.


3.4 Bydd ychydig o newid yn nangosydd 15 eleni (nifer yr ymweliadau â gwefan y cyngor), yn bennaf oherwydd newid yn sut mae'r wefan yn casglu cwcis gan ddefnyddwyr. Mae'r ffordd y mae'r wefan yn casglu gwybodaeth am gwsmeriaid ar ffurf cwcis wedi newid mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth ac, erbyn hyn, gofynnir i ddefnyddwyr dderbyn cwcis dadansoddi sy'n cynorthwyo i gasglu gwybodaeth am nifer y defnyddwyr sy'n ymweld â'r wefan.

3.5 Yn anffodus, oherwydd y newid hwn bydd y ffigyrau yn yr adroddiadau yn sylweddol is o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, mae perfformiad yn Chwarter 1 tua 26k o ymweliadau o gymharu â 248k o ymweliadau yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22.

3.6 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol gan fod y dangosyddion, ar y cyfan, yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau. Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud gwaith pellach mewn perthynas â dau ddangosydd sydd yn tanberfformio ac sydd yn GOCH yn erbyn eu targedau.

3.6.1 Dangosydd 05 – cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol), gyda pherfformiad o 60% yn erbyn targed o 80%. Er gwaethaf y perfformiad, mae'n galonogol bod 4 o'r 5 gŵyn a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod â'r achwynydd o fewn 5 diwrnod gwaith. Cytunwyd ar estyniad ar gyfer un o'r ddau ymateb ysgrifenedig hwyr, a'r rheswm am yr ymateb hwyr arall oedd ei fod yn gŵyn ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a hysbyswyd yr achwynydd fod yr ymateb i'r gŵyn yn debygol o fod yn hwyr oherwydd hyn.

3.6.2 Dangosydd 09 – % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlen – sy'n dangos fod 67% o ymatebion yn unol â'r amserlen yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â pherfformiad o 83% a welwyd ar ddiwedd Ch1 2021/22. O ran cyd-destun, derbyniwyd 39 cais Rhyddid Gwybodaeth ychwanegol a 509 o gwestiynau ychwanegol yn ystod Ch1 2022/23 (225 cais Rhyddid Gwybodaeth gyda 2037 cwestiwn) o gymharu â Ch1 2021/22 (186 cais Rhyddid Gwybodaeth gyda 1528 cwestiwn).



3.7 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd y chwarter cyntaf, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £0.544m yng nghyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Fodd bynnag, mae pryder am nifer o feysydd nad ydynt efallai'n amlwg o'r ffigwr hwn ac maent yn amlygu risgiau mewn perthynas â sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol.

3.8 Mae'r prif feysydd pryder yn ymwneud â:-

3.8.1 Y ffaith fod y cynnig tâl presennol gan y Cyd Gyflogwyr yn genedlaethol yn sylweddol uwch na'r hyn y caniatawyd ar ei gyfer yn y gyllideb ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolwg presennol. Er bod cronfa wrth gefn glustnodedig mewn lle i wrthbwyso cyfran helaeth o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn llawn. Mae'n rhaid caniatáu ar gyfer y cynnydd yn y gost yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24.

3.8.2 Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn peri pryder arbennig, ac amcangyfrifir gorwariant o £1.508m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant oherwydd cynnydd yn y galw. Serch hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y tanwariant. Y sefyllfa wirioneddol yw y bydd gorwariant o rhwng £3.5m a £4m yn y gwasanaethau. Mae hyn ar sail lefel bresennol y galw. Bydd y sefyllfa'n gwaethygu os bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau.

3.8.3 Yn y pendraw, bydd problemau costau byw yn arwain at gynnydd mewn galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cymorth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio, ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

3.9 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 yn cael effaith hefyd ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau i adlewyrchu'r cynnydd mewn costau a welir yn 2022/23 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Bydd unrhyw orwariant sylweddol hefyd yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn clustnodedig a balansau cyffredinol y Cyngor a bydd hyn yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwyso'r gyllideb refeniw yn 2023/24.

3.10 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £7.926m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei gynnwys wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.

3.11 Y CRT sy'n cyfrannu'n bennaf at y tanwariant a ragwelir, ble mae tanwariant sylweddol (£6,292m) yn cael ei ddarogan. Y prif resymau am y tanwariant yn y CRT yw:

3.11.1 Nid yw nifer o gynlluniau adeiladu o'r newydd wedi datblygu cymaint â'r gobaith oherwydd amryw o ffactorau;
3.11.2 Mae oedi yn y prosiect Safonau Ansawdd Tai Cymru tra bod dyluniad y rhaglen ceginau newydd yn cael ei gwblhau; ac
3.11.3 Oedi wrth dderbyn caniatâd i osod paneli Solar PV.

3.12 Mae'r canlyniadau hyn a'r gwariant cysylltiedig a ragwelir yn dangos fod y mwyafrif o brosiectau ar y trywydd iawn i'w cwblhau o fewn y gyllideb gyda dim ond £1.634m i'w gario drosodd o raglen gyfalaf y gronfa gyffredinol.

3.13 Mae gwybodaeth bellach am reolaeth ariannol i'w weld yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 1', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 1' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 1' fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 27 Medi.

3.14 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol trwy ddefnyddio dadansoddiad y cerdyn sgorio fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid, yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol. Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion, o'r safbwynt hwnnw, hefyd yn portreadu perfformiad boddhaol.

## 4. RHEOLI PERFFORMIAD

4.1 Ar ddiwedd Chwarter 1 mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (90%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae tri dangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Ch1 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.

4.2 Ar ddiwedd Chwarter 1, mae perfformiad ein hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn dda ac nid oes unrhyw ddangosydd o dan yr amcan hwn yn tanberfformio ar hyn o bryd.


4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.3.1 Dangosydd 7 – Nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden – sydd â pherfformiad o 132k o gymharu â tharged o 128.5k. Mae hwn yn well na'r perfformiad a welwyd cyn y pandemig, yn ystod Chwarter 1 2019-20, pan gofnodwyd 122k ymweliad yn ystod y cyfnod.
4.3.2 Dangosydd 11 – Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd – gyda 14 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd o gymharu â tharged o 12. Unwaith eto,

mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 14 llai o dai gwag yn ein cymunedau.


4.4 Mae dau o'r tri dangosydd sy'n tanberfformio i'w gweld o dan yr ail amcan llesiant, **Amcan 2,** lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib.

4.4.1 Dangosydd 20 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar amser – sydd yn GOCH gyda pherfformiad o 78.02% yn erbyn targed o 90%. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â'r 90.45% a welwyd yn Chwarter 1 2021/22 a'r 85.32% a welwyd cyn covid, yn Chwarter 1 2019/20.




Mae perfformiad yn gysylltiedig â'r dangosydd perfformiad allweddol hwn wedi dioddef oherwydd bylchau mewn staffio yn ystod Ch1 oherwydd cyfuniad o absenoldeb staff a chynnydd yn yr atgyfeiriadau sydd angen asesiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r problemau staffio wedi gwella yn awr a bydd perfformiad y dangosydd hwn yn gwella yn ystod y chwarter nesaf oherwydd hynny.

4.4.2 Dangosydd 23 - Mae'r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn - yn GOCH gyda pherfformiad o 337 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Mae'r perfformiad wedi gostwng o gymharu â'r 277 diwrnod a welwyd yn Chwarter 1 2021/22 ac mae ychydig yn is na'r 318 a nodwyd ar ddiwedd 2021/22.



Mae nifer fechan o blant wedi bod ar y gofrestr amddiffyn plant am fwy o ddiwrnodau na'r nifer targed. Rhagwelir y bydd hanner y garfan hon yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr yn ddiogel yn ystod yr wythnosau nesaf a bydd hyn yn cynorthwyo i wella perfformiad yn ystod y flwyddyn.

4.5 Er bod angen gwella perfformiad o dan yr amcan hwn a mabwysiadu mesurau lliniaru, mae'n bwysig nodi enghreifftiau o berfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter, gan gynnwys:

4.5.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn galonogol mewn cyfnod lle mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod o dan bwysau oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a phroblemau wrth recriwtio staff.


4.5.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai wedi perfformio'n dda ac mae'r ddau'n Wyrdd yn erbyn eu targedau ar gyfer y chwarter. Mae defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru wedi bod yn hanfodol i ganiatáu i hyn ddigwydd, yn ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau fod ein pobl yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref. Fodd bynnag, dylid nodi bod y galw a welir am gymorth oherwydd y nifer digynsail o Hysbysiadau A21 a dderbyniwyd gan denantiaid landlordiaid preifat am arwain at ddirywiad mewn perfformiad wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi.

4.6 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol wedi bod yn dda hefyd, gyda 90% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed.

4.7 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:


4.7.1 Mae tri dangosydd rheoli gwastraff (Dangosydd 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 95% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân ac mae'n galonogol nodi fod sbwriel sy'n cael ei dipio'n anghyfreithlon yn cael ei glirio o fewn diwrnod. Cynhyrchwyd ychydig llai o wastraff gweddilliol gan breswylwyr na'r targed a osodwyd ar gyfer y chwarter. Mae cymorth preswylwyr i gynhyrchu llai o wastraff gweddilliol ac ailgylchu mwy yn hanfodol os yw'r Ynys am gyflawni'r targed ailgylchu o 70% erbyn 2025.

